

NEWYDDION YR ACADEMI

CYLCHLYTHYR SWYDDOGOL ACADEMI DDELWEDDU
GENEDLAETHOL CYMRU



CROESO

Gan Victoria Whitchurch, Rheolwr Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru

Cafodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ei sefydlu gyda diben clir, sef hybu hyfforddiant a hwyluso'r gallu cynyddol i gynnal hyfforddiant yng Nghynlluniau Hyfforddi Radioleg Cymru, yn ogystal â hybu datblygiad proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes delweddu diagnostig ledled GIG Cymru. Mae'n braf gennym ni adrodd ein bod ni wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion allweddol hyn dros y 2 flynedd ddiwethaf ac rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein rhaglen hyfforddi i gynnwys rhagor o gyfleoedd amgen ac arloesol o ran datblygu proffesiynol ar gyfer y gweithluoedd delweddu diagnostig ar draws GIG Cymru.

Ynghyd â chanolbwynt sylfaenol yr hyfforddiant, mae cyfrifoldeb gyda ni dros arloesedd, cydweithrediad ac ymchwil yn y maes delweddu diagnostig ac mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n ehangu. Hefyd, er mwyn tynnu sylw at waith gwyb eiddo ein tîm a'n partneriaid cydweithredol, mae'n braf gennym ni lansio cylchlythyr cyntaf yr Academi sy'n disgrifio ein cynnydd, datblygiadau parhaus a digwyddiadau sydd i ddod.

Hoffem ni ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni dros y ddwy flynedd ddiwethaf i'n helpu ni i ddatblygu sefydliad gwirioneddol arloesol yn GIG Cymru sy'n cynnig cymaint i'r gweithlu delweddu diagnostig ledled Cymru.

MYNNWCH WYBOD:

ARLOESED
AC
YMCHWIL

02

CYDWEITHREDIAD

03

HYFFORDDIANT

04

DIGWYDDIADAU

05

UNRHYW FUSNES

ARALL

06

ARLOESED D AC YMCHWIL

Cyllido prosiectau

Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru wedi ymrwmo i hybu addysg feddygol/gofal iechyd ôl-raddedig yn y gweithlu delweddu diagnostig yn GIG Cymru gan ein bod ni'n credu y bydd hyn yn gwella gwybodaeth, sgiliau, hyder a chymhwysedd yr addysgwyr ac yn creu rhagor o gyfleoedd i ddysgu ar draws y maes delweddu diagnostig.

Rydyn ni'n awyddus i roi cymorth i weithwyr proffesiynol brwdfrydig ar eu taith addysgol bersonol drwy ddarparu cymorth ariannol i'r dysgwyr yn ystod eu hastudiaethau, ond gyda'r nod hefyd o gynnal platform lle gallan nhw ddefnyddio ac ymarfer sgiliau newydd mewn amgylchedd â chymorth. Felly, cysylltodd yr Academi â'r gweithwyr delweddu diagnostig proffesiynol ar draws GIG Cymru ac mae'n braf cyhoeddi y byddwn ni'n cyllido ac yn cefnogi 3 phrosiect. Cewch wybod mwy am bob prosiect isod.



Dr. Helen Blundell

DYSGU FFISEG I RADIOLEGWYR DAN HYFFORDDIANT

Gwyddonydd Clinigol yw Helen sy'n gweithio yn yr Adran Ffiseg Feddygol yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae hi hefyd yn dysgu ffiseg ym Mhrifysgol Caerdydd yn rhan o'r cwrs BSc Ffiseg Feddygol ac yn rhan o'r agwedd ffiseg ar ran gyntaf cynllun y FRCR yma yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru.

Bydd Helen yn cofrestru ar gyfer cwrs PGCert mewn Addysg Feddygol ac yn rhan o hwn, bydd hi'n ymgymryd â phrosiect ymchwil ar sail adborth gan fyfyrwyr rhan gyntaf cynllun yr FRCR. Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn ei gwneud hi'n bosib addasu'r ffordd mae'r agwedd ffiseg ar yr FRCR yn cael ei haddysgu pan fydd angen, boed hynny o ran cynnwys neu'r ffordd mae'r cynnwys yn cael ei addysgu, er mwyn sicrhau'r canlyniadau dysgu gorau posib i bob un o'n myfyrwyr.



Richard Mabbott

FFISEG MRI

Mae Richard wedi cwblhau tystysgrif ôl-raddedig mewn Delweddu Meddygol (MRI) ac mae'n mynd i barhau â'i astudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Bradford, gan ganolbwyntio'n benodol ar MRI Cardiaidd. Bydd hyn yn helpu i wella ei wybodaeth a'i sgiliau a bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer sganau MRI cardiaidd.

Bydd Richard yn canolbwyntio ar symleiddio'r ffordd o addysgu ffiseg gymhleth MRI i'r rheiny sy'n gweithio yn y maes delweddu meddygol ond sydd heb gefndir mewn ffiseg na mathemateg, a hynny gan ddefnyddio dull ansoddol o weithio.



Rebecca Wallace

GWEITHLU DELWEDDU – ROLAU ARWAIN, HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd Rebecca yn cynnal astudiaeth ansoddol mewn cydweithrediad ag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru er mwyn archwilio a cheisio treiddio ymhellach i feddyliau'r gweithlu delweddu o ran rolau arwain, yn ogystal â'u safbwynt ar yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Er mwyn ymdopi â'r heriau a'r anfanteision sy'n ymwneud ag adran ddelweddu fodern, mae angen i unigolion medrus reoli ac arwain yn effeithiol. Mae amryw gyhoeddiadau'n amlinellu'r heriau sy'n ymwneud ag arwain yn y maes radioleg, a hyd yn oed sut beth yw arweinydd aneffeithiol yn y ddisgyblaeth. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth sy'n bodoli ynglŷn â pha sgiliau a phrofiad sy'n cael eu hystyried yn bwysig a pha hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i'r rheiny sy'n ymgymryd â rôl arwain yn yr adrannau delweddu yng Nghymru neu'r rheiny sy'n ystyried gwneud hynny.



CYDWEITHIO

Intelligent Ultrasound a Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Intelligent US fenthyg efelychwr BodyWorks Eve i ni gyda'u sganiau uwchsain enghreifftiol o effaith COVID-19 ar yr ysgyfaint. Mae BodyWorks Eve yn efelychwr hynod o realistig ar gyfer cleifion sy'n fenywod a chafodd ei ddylunio ar gyfer hyfforddiant mewn sefyllfaoedd Uwchsain ar Bwynt Gofal (PoCUS). Mae 100 o sganiau cleifion go iawn arno yn ogystal â mwy na 10,000 o amrywiadau patholeg ar sganiau cardiaidd, sganiau trawsabdomenol a sganiau ar yr ysgyfaint a'r glun.

Pan ddaeth COVID-19, newidiodd bywyd yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru dros nos yn gyfan gwbl, ond dyma pryd roedden ni'n cydweithio ar ein gorau ac roedden ni'n gallu gweithio gyda gwasanaethau busnes a chlinigol ar draws GIG Cymru oedd yn ei chael hi'n anodd. Diolch i'n cydweithrediad ag Intelligent Ultrasound, rydyn ni wedi llwyddo i drefnu hyfforddiant penodol ar sganiau uwchsain o'r ysgyfaint, sy'n cynnwys senarios COVID-19, ar gyfer ymarferwyr uwchsain profiadol, a hynny ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Yn dilyn y cydweithrediad ag Intelligent Ultrasound Group plc a Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi llwyddo i gael efelychwr newydd sy'n dod â'n cyfanswm i dair uned efelychu ScanTrainer (2 uned drawsabdomenol ac 1 uned drawsweiniol) a dau efelychwr BodyWorks Eve sy'n cynnal hyfforddiant rhyngweithiol uwchsain ar bwynt gofal (PoCUS).

Mae ScanTrainer yn hybu hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau sganio uwchsain ac yn galluogi radiolegwyr dan hyfforddiant i ddysgu yn eu hamser a'u cyflymder eu hun yn rhywle anghlinigol heb fod pwysau arnyn nhw. Mae'n eich galluogi chi i ddatblygu sgiliau defnyddio chwiliedydd trawsabdomenol a thrawsweiniol, cael delweddau o ansawdd, cydnabod patholeg a phrofi eich sgiliau diagnostig.

Mae rhagor o wybodaeth ar - <https://www.intelligentultrasound.com/>



HYFFORDDIANT

Penblwydd Hapus!

YR ACADEMI YN 2 FLWYDD OED

Ym mis Awst 2020, dathlom ni ein pen-blwydd yn 2 oed ac yn ystod hynny rydyn ni wedi bod yn helpu nifer fwy o radiolegwyr dan hyfforddiant yng nghynllun radioleg de Cymru ac wedi sicrhau canlyniadau rhagorol mewn arholiadau.

Croeso!

RADIOLEGWYR DAN HYFFORDDIANT 2020

Ym mis Awst, croesawom ni ein carfan newydd o ddeunaw o radiolegwyr ST1 dan hyfforddiant i Gynllun Hyfforddiant Arbenigol Radioleg De Cymru.



ARHOLIADAU YR RCR

RADIOLEG AC ONCOLEG GLINIGOL

Cyn COVID-19, roedd yr Academi am fod yn ganolfan arholi ac yn dilyn y pandemig, mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr wedi penderfynu cynnal arholiadau o bellter. Rydyn ni'n hynod o falch ein bod ni yn un o ganolfannau arholi ranbarthol y DU ar gyfer arholiadau Radioleg ac Oncoleg Glinigol 2020.

DYFODOL HYFFORDDIANT

Mae'r Academi wedi asesu ymhellach y ffordd rydyn ni'n cynnal hyfforddiant ac yn trafod gwelliannau ynghylch y dyfodol ac addysg ar-lein yn ystod y pandemig. Er mwyn paratoi i ailddedrau hyfforddiant, mae mesurau glanhau a chadw pellter cymdeithasol wedi cael eu cyflwyno. Ailgorodd yr Academi ym mis Mehefin 2020 er mwyn cynnal hyfforddiant i'n radiolegwyr dan hyfforddiant yn ne Cymru.



DIGWYDDIADAU

CYRSIAU DIWEDDAR

Ers ailagor yr Academi yn dilyn pandemig COVID-19, rydyn ni wedi llwyddo i gynnal y cyrsiau uchod drwy ddysgu cyfunol er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Roedd rhaid cyfyngu ar nifer y mynychwyr oedd yn cael bod yn yr ystafell er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ddiogel a'u bod nhw'n cadw pellter cymdeithasol. Mae ein cwrs FRCR wedi cael ei gynnal ar-lein eleni er mwyn paratoi'r ymgeiswyr ar gyfer ffurf newydd arholiadau'r RCR ar gyfer 2020 - roedd yr holl arholwyr yn gweithio yn yr Academi ac roedden nhw'n defnyddio Microsoft Teams i fideo-gynadledda gyda mynychwyr y cwrs o'u cartref.

DIGWYDDIADAU SYDD I DDOD


COLONOGRAFFEG CT

Sylwch fod disgwyl i'r cwrs hwn gychwyn ddechrau 2021 ac rydyn ni wrthi'n ceisio canfod faint o ddiddordeb sydd. Dydyn ni ddim wedi cadarnhau dyddiad terfynol eto.

<http://imagingacademy.wales/ct-colonography-course>

ARHOLIADAU YR FRCR

Drwy gydol mis Hydref a mis Rhagfyr 2020, bydd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru'n cynnal arholiadau radioleg yr FRCR a'r arholiadau oncoleg.





COVID-19 CORONAVIRUS



YR ACADEMI YN YSTOD Y CYFYNGIADAU SYMUD

Cafodd gweithgareddau arferol yr Academi eu hatal wrth ymateb i bandemig COVID-19 a bu cymaint o waith cynllunio er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys adleoli clinigwyr oedd yn cynnwys rhai o'r radiolegwyr dan hyfforddiant o dde Cymru. Mae ein tîm a'n cyfleuster yn parhau i fod yn brysur iawn yn darparu cymorth ar gyfer gwasanaethau hanfodol (gan gynnwys hyfforddiant) ac yn paratoi ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol yn rhan o'r normal newydd.

Yn wreiddiol yn ystod COVID-19, roedden ni'n cydweithio ar gynnal canolfan brofi COVID-19 ranbarthol ar gyfer gweithwyr hanfodol. Roedd hwn yn ddatblygiad llwyddiannus ac roedd yn gweithio'n dda yn unol â gweithgareddau'r Academi. Erbyn hyn, mae'r canolfan brofi wedi cael ei hadleoli ac rydyn ni'n diolch i'r tîm nyrsio am eu gwaith anhygoel ac am fod yn gwmni ac yn gydweithwyr gwych.

Ein blaenoriaeth gyntaf oedd cynorthwyo gwasanaethau hanfodol fel Canolfan Adrodd Radioleg. Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn y sefyllfa orau i ymdrin â hyn, gan ei bod yn gallu adrodd astudiaethau delweddu diagnostig ar gyfer bron pob Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn i Fyrddau Iechyd wrth wneud trefniadau i adrodd o gartref, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau adrodd radioleg a gwaith y tîm amlddisgyblaethol clinigol yn gallu parhau, gydag isadeiledd TG cadarn yn rhywle diogel yn ystod COVID-19. Yn ogystal â hynny, sefydlodd ein tîm ail Ganolfan Adrodd wrth gefn mewn cydweithrediad â Chydweithrediaeth GIG Cymru yn River House, pe bai problemau o ran TG.

Yn ystod y pandemig, darparodd yr Academi orsaf weithio i 'Operation Workstation' gan FujiFilm i ddarparu gorsafodd newydd fel bod radiolegwyr yn gallu adrodd o gartref. Roedd hwn yn ymarfer diwydiannol wrth i orsafodd gweithio gael eu hadeiladu i bron pob Bwrdd Iechyd yn ardal gynadledda'r Academi.

Cafodd adnoddau TG a safle'r Academi Ddelweddu eu defnyddio hefyd i helpu sefydliadau eraill i barhau â'u gwaith. Gweithiodd yr Academi gyda Chydweithrediaeth GIG Cymru i hwyluso Rhaglen Systemau Gwybodeg Radioleg GIG Cymru, gan gynnal gweithdai ar-lein ar draws GIG Cymru. Roedd hyn yn galluogi'r rhaglen hanfodol hon i barhau er gwaethaf y cyfyngiadau symud. Cafodd hyfforddiant ad hoc a chyfleusterau fideogynadledda eu defnyddio i gynnal hyfforddiant yn ystod y cyfyngiadau symud, gan gynnwys radiograffeg israddedig.

Yn ogystal â hyfforddiant sganiau o'r ysgyfaint ag uwchsain, roedden ni'n cynnig cymorth ar gyfer radioleg. Ar ein gwefan, roedd adnodd dysgu a rennir ar gyfer clinigwyr sydd o bosib wedi cael eu hadleoli, gyda chanolbwynt ar elfennau hanfodol o ddelweddu diagnostig a dehongli radiograffeg ar y frest mewn achosion o COVID-19. Cafodd y rhain eu datblygu a'u cyflwyno gan Radiolegwyr yr Academi, Dr Grant Griffiths a Dr Timothy Pearce. Mae'r rhain ar gael o hyd ar imagingacademy.wales/cy

Erbyn hyn ar ôl y cyfyngiadau symud, mae ein hyfforddiant yn cael ei gynnal fel yr oedd cyn y pandemig ac rydyn ni'n parhau i wella ein hyfforddiant ar-lein. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu yn cynyddu'n sylweddol wrth i ni gynnal amgylchedd diogel, felly dylai fod llawer i'w adrodd yn ein cylchlythyr nesaf.